



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG55156

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18

Medi 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-80853-363-1 ISBN Digidol

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r barnau a'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18.

Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Llwybrau Dysgu 16-18
Yr Is-adran Llwybrau Dysgu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Dysgu.16-18.Learning@llyw.cymru

 [@LIC_Addysg](#)



[Facebook/AddysgCymru](#)

Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: [Canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18](#)

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Y broses ymgynghori	4
Ymatebion i'r ymgynghoriad	4
Crynodeb o'r Ymatebion	5
Cwestiwn 1 – Rôl Medr wrth lunio cwricwla lleol 16-18	5
Cwestiwn 2 – Gosod gweledigaeth ar gyfer cwricwla lleol 16-18	7
Cwestiwn 3 – Llunio cwricwla lleol	9
Cwestiwn 4 – Ehangder y cwricwlwm a chynnydd	11
Cwestiwn 5 – Ailsefyll arholiadau TGAU a Sgiliau Hanfodol Cymru	13
Cwestiwn 6 – Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch a chymwysterau Sgiliau	15
Cwestiwn 7 – Effaith ar y gweithlu	17
Cwestiwn 8 – Tegwch ac anghenion amrywiol	19
Cwestiwn 9 – Y Gymraeg (cydraddoldeb)	21
Cwestiwn 10 – Y Gymraeg (atgyfnerthu)	23
Cwestiwn 11 – Sylwadau cyffredinol	25
Ymateb Llywodraeth Cymru	26

Cyflwyniad

O fis Ebrill 2026, cafodd dyletswyddau statudol mewn perthynas â llunio cynigion cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru i Medr.

Datblygwyd canllawiau drafft i amlinellu dyletswyddau statudol Medr a chynllunwyr cwricwlwm (awdurdodau lleol, ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)) mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn, yn ogystal â'r ffactorau ehangach i'w hystyried wrth ddatblygu cynigion cwricwlwm lleol ystyrlon i ddysgwyr 16 i 18 oed yng Nghymru. Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 20 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022, a rhaid i Medr eu hystyried wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Deddf 2000).

Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar newidiadau i gymwysterau ôl-16 yn Lloegr, gan gynnwys cyflwyno cymwysterau galwedigaethol (*V Levels*) a chymwysterau technegol (*T Levels*). Er y gallai'r diwygiadau hyn effeithio ar y cymwysterau a'r cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr, ni ddylent effeithio ar gynnwys y canllawiau ar gwrhwla lleol 16 i 18.

Y broses ymgynghori

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng 3 Chwefror 2026 a 31 Mawrth 2026.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau o ran p'un a oedd y canllawiau drafft yn briodol, yn gytbwys ac yn nodi'n glir ddyletswyddau Medr a chynllunwyr cwricwlwm wrth ddatblygu cynigion cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfanswm o 11 o gwestiynau, yr oedd chwech ohonynt yn gofyn i'r ymatebydd nodi i ba raddau roedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig (gan ddefnyddio graddfa Likert - system raddio a ddefnyddir mewn holiaduron ymchwil i fesur agweddau, barn neu ganfyddiadau pobl). Rhoddodd pob cwestiwn gyfle i ymatebwyr fynegi eu barn gan ddefnyddio blwch sylwadau testun agored, a chynhwyswyd cwestiwn penagored ychwanegol yn y ffurflen ymateb i gasglu unrhyw sylwadau pellach nad ymdriniwyd â nhw mewn man arall. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys dau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg, un cwestiwn ar ystyriaethau cydraddoldeb, ac un cwestiwn ar yr effaith ar y gweithlu addysg.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 30 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio templed y ffurflen ymateb. Roedd hyn yn cynnwys un ymateb a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau, a gwnaethom ystyried yr ymateb hwn wrth inni ddadansoddi'r ymatebion.

Daeth dau ymateb ychwanegol i law, nad oeddent yn cynnig atebion uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad. Er na chaiff yr ymatebion hyn eu cynnwys yn ymatebion

Likert, maent wedi cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn y crynodeb hwn o ymatebion.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diolch i bawb a gymerodd yr amser i gyfrannu.

Crynodeb o'r Ymatebion

Cwestiwn 1 – Rôl Medr wrth lunio cwricwla lleol 16-18

I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y canllawiau i Medr ar gwricwla lleol i ddysgwyr 16 i 18 ('canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18') yn nodi rôl Medr wrth lunio cwricwla lleol yn glir?

Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Cytuno'n Gryf	2	6.67%
Cytuno	23	76.67%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	3	10.00%
Anghytuno	2	6.67%
Anghytuno'n Gryf	0	0.00%

O'r ymatebion Likert a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 1, roedd 83% yn gadarnhaol, roedd 10% yn niwtral ac roedd 7% yn negyddol.

Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol dros ben, gyda'r rhan fwyaf yn cytuno bod rôl strategol Medr wedi'i diffinio'n glir yn y canllawiau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu swyddogaeth Medr fel un corff cydlynu ac arweinydd system, ac roedd cefnogaeth glir i'r pwyslais ar gydweithio, gweithio mewn partneriaeth, dewis dysgwyr a chynhwysiant. Yn gyffredinol, roedd dealltwriaeth dda o'r cyfrifoldebau a fyddai'n trosglwyddo, ac ystyriwyd bod y canllawiau yn darparu fframwaith statudol clir er mwyn helpu i ddatblygu cwricwla lleol cydlynol.

Er bod ymatebwyr yn cefnogi'r eglurder strategol a ddarparwyd, tynnodd rhai sylw at yr angen am fwy o fanylion ynghylch sut y bydd y trefniadau hyn yn gweithredu'n ymarferol. Cododd ymatebwyr gwestiynau ynghylch prosesau gwneud penderfyniadau, atebolrwydd, a sut y bydd y trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau yn gweithredu, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli achosion o anghytuno ac uwchgyfeirio.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at ystyriaethau yn ymwneud â'r system ehangach a allai effeithio ar y broses o lunio cynigion cwricwlwm lleol, gan gynnwys cyfyngiadau o ran capasiti, prinder staff, pwysau ariannol a rhwystrau trafnidiaeth. Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr ddiffyg eglurder a chysondeb yn y defnydd o derminoleg fel "rhaid" a "dylai", gan awgrymu y gellid diffinio rolau a chyfrifoldebau yn gliriach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang i'r canllawiau a'r consensws clir eu bod yn nodi rôl strategol Medr wrth ddatblygu cwrwla lleol 16 i 18 yn effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu digon o eglurder ar faterion gweithredol, gan gynnwys prosesau gwneud penderfyniadau, fframweithiau atebolrwydd a threfniadau uwchgyfeirio. Mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd, gwnaed diwygiadau i gryfhau agweddau ar y canllawiau lle y bo'n briodol, gan gynnwys gwella eglurder a chysondeb wrth ddefnyddio terminoleg.

Bwriedir i'r canllawiau ddarparu fframwaith strategol clir ar gyfer Medr a chynllunwyr cwrwla, yn hytrach na chyfarwyddyd gweithredol manwl. Caiff prosesau manylach yn ymwneud â gweithredu, gan gynnwys trefniadau cydweithio a gweithdrefnau uwchgyfeirio, eu datblygu gan Medr drwy ganllawiau gweithredol ategol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y canllawiau statudol yn parhau yn benodol ac yn gymesur, ond eu bod hefyd yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer ystyriaethau lleol.

Mae diffiniad clir o'r termau "rhaid" a "dylai" eisoes wedi'i gynnwys yn y canllawiau, ac rydym wedi bwrw golwg dros bob enghraifft i sicrhau cysondeb. Lle y bo'n briodol, diwygiwyd enghreifftiau o iaith fwy cyffredinol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Medr er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad ddealltwriaeth glir o'i gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Cwestiwn 2 – Gosod gweledigaeth ar gyfer cwricwla lleol 16-18

I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer dysgu 16 i 18 sydd wedi'i nodi ynddynt?

Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Cytuno'n Gryf	2	6.67%
Cytuno	20	66.67%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	6	20.00%
Anghytuno	2	6.67%
Anghytuno'n Gryf	0	0.00%

O'r ymatebion Likert a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 2, roedd 73% yn gadarnhaol, roedd 20% yn niwtral ac roedd 7% yn negyddol.

Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gydag ymatebwyr yn croesawu'r weledigaeth a nodir yn y canllawiau. Roedd cefnogaeth gref i'r dull cynhwysol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ochr yn ochr â'r pwyslais ar lwybrau cynnydd, ehangder y cwricwlwm a chydaddoldeb rhwng llwybrau academiaidd a galwedigaethol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno fod y weledigaeth yn cydfynd yn dda â'r Cwricwlwm i Gymru ac uchelgeisiau hirdymor ehangach ar gyfer system ôl-16 gydlynol a hyblyg.

Er bod cefnogaeth glir i gyfeiriad cyffredinol y daith, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn llwyddiannus yn dibynnu ar y ffordd y caiff ei rhoi ar waith yn ymarferol. Fel yng nghwestiwn un, codwyd pryderon am atebolrwydd, prosesau gwneud penderfyniadau a'r mecanweithiau ar gyfer datrys anghytundebau rhwng partneriaid.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at heriau yn ymwneud â chyflawni ehangder a hyfywedd y cwricwlwm o safbwynt ymarferol, yn enwedig yng nghyd-destun darpariaeth wledig, carfanau llai a llwybrau cyfrwng Cymraeg. Yn fwy cyffredinol, nodwyd pwysau cylchol ar y system—gan gynnwys cyfyngiadau ariannu, capasiti'r gweithlu, rhwystrau trafnidiaeth a'r gostyngiad yn nifer y dysgwyr—fel risgiau allweddol a allai effeithio ar y graddau y gellir gwireddu'r weledigaeth yn gyson ledled Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r weledigaeth a nodir yn y canllawiau, a'r gydnabyddiaeth ei bod yn adlewyrchu dull cynhwysol a chydlynol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr o ddarparu cyfleoedd dysgu 16 i 18.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y trefniadau gweithredu ac yn cydnabod y bydd cyflawni uchelgais lawn y weledigaeth yn dibynnu ar gydweithio effeithiol, cynllunio strategol a chapasiti priodol yn y system. Er bod yr heriau hyn wedi'u nodi, mae'r egwyddor o sicrhau bod ystod eang a chytbwys o gyfleoedd ar gael i ddysgwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth polisi ganolog.

Roedd canllawiau blaenorol yn gosod disgwyliadau o ran ehangder y cwricwlwm, gan gynnwys targed o 30 o gyrsiau gyda nifer gofynnol o opsiynau galwedigaethol. Nawr, cyfrifoldeb Medr, drwy ei ganllawiau gweithredol, fydd pennu disgwyliadau ar gyfer ehangder y cwricwlwm a chefnogi partneriaid lleol i ddatblygu cynigion cynaliadwy a phriodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi adolygu a chryfhau elfennau o'r canllawiau mewn ymateb i adborth yr ymgynghoriad, gan gynnwys gwella eglurder ynghylch atebolrwydd ac atgyfnerthu cysondeb â'r continwwm 14–19.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Medr a phartneriaid er mwyn helpu i'w rhoi ar waith ac i sicrhau y caiff y weledigaeth ei gwireddu mewn ffordd sy'n uchelgeisiol ac yn gyflawnadwy ar draws gwahanol gyd-destunau lleol.

Cwestiwn 3 – Llunio cwricwla lleol

I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn eich helpu i ddeall y ffactorau a'r blaenoriaethau y dylai Medr eu hystyried wrth weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau) i lunio cwricwla lleol?

Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Cytuno'n Gryf	3	10.00%
Cytuno	19	63.33%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	5	16.67%
Anghytuno	3	10.00%
Anghytuno'n Gryf	0	0.00%

Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gydag ymatebwyr yn croesawu'r pwyslais cryf ar gydweithio a chynllunio ar draws y system gyfan. Roedd llawer yn cytuno bod y canllawiau yn nodi'r ffactorau a'r blaenoriaethau allweddol a ddylai lywio'r broses o ddatblygu cwricwla lleol yn glir, gan gynnwys y galw gan ddysgwyr, anghenion y farchnad lafur, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn ogystal â llwybrau cynnydd. Cafwyd sylwadau cadarnhaol hefyd mewn perthynas â'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a'r ffaith bod y canllawiau yn cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd.

Fodd bynnag, er bod ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan bod y ffactorau perthnasol wedi'u nodi'n glir, roedd pryder am y ffordd y byddai'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cydbwysu'n ymarferol pe byddai tensiynau'n codi yn thema gyson. Tynnodd ymatebwyr sylw at nifer o ystyriaethau croes posibl:

- y galw gan ddysgwyr yn erbyn hyfywedd ariannol
- uchelgais o ran y Gymraeg yn erbyn capasiti'r gweithlu
- cynhwysiant ac ehangder yn erbyn cynaliadwyedd carfanau bach
- awtonomi sefydliadol yn erbyn cydweithio a chynllunio ar lefel ardal

Mae'r ymatebion hyn yn dangos, er bod y canllawiau yn rhoi eglurder o ran *pa* ffactorau y dylid eu hystyried, bod llai o eglurder ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau pan fydd blaenoriaethau cystadleuol a chyfyngiadau cyflawni yn codi.

Fel yr adlewyrchir yn yr ymatebion i gwestiynau eraill, tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am fwy o eglurder gweithredol, gan gynnwys prosesau cliriach ar gyfer gwneud penderfyniadau, blaenoriaethu a rheoli achosion o anghytuno rhwng partneriaid.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r ymateb cadarnhaol cyffredinol a'r gydnabyddiaeth bod y canllawiau yn nodi'r ffactorau a'r blaenoriaethau allweddol a ddylai lywio'r broses o lunio cwricwla lleol yn glir.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr adborth ynghylch y ffordd y bydd y ffactorau hyn yn cael eu cydbwyso yn ymarferol, yn enwedig lle ceir blaenoriaethau cystadleuol neu gyfyngiadau cyflawni. Bwriedir i'r canllawiau nodi'r ystyriaethau allweddol y mae'n rhaid i Medr ymdrin â nhw ar lefel strategol, yn hytrach na rhagnodi methodolegau manwl ar gyfer gwneud penderfyniadau o dan bob math o amgylchiadau.

Gall Medr ddatblygu dulliau manylach o gydbwyso blaenoriaethau, gan gynnwys sut y bydd partneriaid lleol yn cydweithio i fynd i'r afael â gofynion cystadleuol, drwy ei ganllawiau gweithredol. Bydd hyn yn galluogi hyblygrwydd wrth ymateb i gyd-destunau lleol ond gan gynnal fframwaith cenedlaethol cyson ar yr un pryd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd ac wedi cryfhau elfennau o'r canllawiau lle y bo'n briodol, gan gynnwys gwella eglurder ynghylch rolau a disgwyliadau. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Medr a phartneriaid er mwyn helpu i'w rhoi ar waith yn effeithiol a byddwn yn sicrhau y caiff cwricwla lleol eu datblygu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n gyflawnadwy.

Cwestiwn 4 – Ehangder y cwricwlwm a chynnydd

I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd yr hyn a ddisgwylir gan Medr a sefydliadau eraill yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn arwain at lunio cwricwla lleol sy'n cynnig dewis eang o gymwysterau i ddysgwyr, a fydd yn eu galluogi i symud ymlaen i'r camau nesaf a ddewiswyd ganddynt o ran addysg neu gyflogaeth?

Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Cytuno'n Gryf	1	3.33%
Cytuno	15	50.00%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	11	36.67%
Anghytuno	2	6.67%
Anghytuno'n Gryf	1	3.33%

O'r ymatebion Likert a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 4, roedd 53% yn gadarnhaol, roedd 37% yn niwtral ac roedd 10% yn negyddol.

Roedd yr ymatebion yn dangos lefel gyffredinol o gefnogaeth, gydag ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor y gallai'r disgwyliadau a nodir yn y canllawiau helpu i ddatblygu cwricwla lleol sy'n cynnig amrywiaeth eang o gymwysterau a llwybrau cynnydd. Croesawyd y pwyslais ar gydweithio, dewis dysgwyr a chydawnsedd ag anghenion y farchnad lafur yn eang.

Tynnodd ymatebwyr sylw at fwch rhwng uchelgais polisi a chyflawniadau ymarferol, gan fynegi pryderon ynghylch a ellir cyflawni ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson ledled Cymru.

Roedd y potensial ar gyfer anghydraddoldeb daearyddol yn thema allweddol. Nododd ymatebwyr na fyddai cymaint o ddarpariaeth ar gael o bosibl i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd d â llai o adnoddau o gymharu â'r rhai mewn lleoliadau trefol, gan godi pryderon ynghylch mynediad teg at gwricwlwm eang.

Codwyd heriau cyflawni ymarferol hefyd. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys pwysau ariannu, capasiti'r gweithlu, cyfyngiadau seilwaith a'r ffaith bod niferoedd dysgwyr yn gostwng, yr ystyriwyd bod pob un ohonynt yn cyfyngu ar allu darparwyr i gynnal cynnig cwricwlwm amrywiol a hyfyw. Nodwyd trafndiaeth a hygyrchedd hefyd fel rhwystrau sylweddol, yn enwedig lle mae'n ofynnol i ddysgwyr deithio rhwng safleoedd, gyda goblygiadau o ran cost, amserlennu, presenoldeb a chyfranogiad.

Er bod cydnabyddiaeth gyffredinol i'r ffaith bod trefniadau cydweithio yn hanfodol i gyflawni ehangder y cwricwlwm, nododd llawer o'r ymatebwyr y gall fod yn gymhleth gweithredu trefniadau o'r fath o safbwynt ymarferol. Tynnwyd sylw at heriau yn ymwneud ag amserlennu, trefniadau ariannu, modelau cyflawni a rennir a chydlynu rhwng sefydliadau. Cododd rhai ymatebwyr bryderon hefyd y gallai cyflawni ehangder ar lefel leol neu ranbarthol, mewn rhai achosion, leihau'r amrywiaeth o

opsiynau sydd ar gael o fewn sefydliadau unigol, gyda goblygiadau posibl o ran profiad dysgwyr a chynaliadwyedd darparwyr.

Yn olaf, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cyngor, gwybodaeth ac arweiniad o ansawdd uchel i alluogi dysgwyr i ymdrin â system fwy cymhleth ac iddynt allu manteisio ar yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd sydd ar gael. Gwnaethant nodi pwysigrwydd sicrhau y gall pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n fwy agored i niwed neu'n anoddach eu cyrraedd, elwa ar y trefniadau hyn.

Ar y cyfan, er bod cefnogaeth o blaid yr egwyddorion sy'n sail i'r canllawiau, pwysleisiodd ymatebwyr y bydd y gallu i'w gweithredu'n llwyddiannus yn dibynnu ar fynd i'r afael â'r heriau ymarferol a systemig hyn er mwyn sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar gynnig cwricwlwm gwirioneddol eang a chydlynol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau, yn enwedig y pwyslais ar gydweithio, dewis dysgwyr a chynnydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch i ba raddau y gellir darparu cwricwlwm eang a theg yn gyson ledled Cymru. Mae'r adborth yn tynnu sylw at amrywiaeth o heriau ymarferol, gan gynnwys pwysau ariannu, capasiti'r gweithlu, trafnidiaeth a hygyrchedd, a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â modelau cyflawni cydweithredol. Cydnabyddir y ffactorau hyn fel ystyriaethau allweddol wrth weithredu cwricwla lleol.

Bwriedir i'r canllawiau bennu'r fframwaith strategol y caiff cwricwla lleol eu datblygu o'i fewn. Mae llawer o'r materion a godwyd—yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â modelau cyflawni, cydlynu rhwng partneriaid a gweithredu ymarferol—o natur weithredol ac ymdrinnir â nhw drwy ganllawiau manwl a ddatblygir gan Medr, wedi'u hategu gan waith ymgysylltu parhaus â darparwyr a phartneriaid lleol. Bydd Medr hefyd yn gosod disgwyliadau o ran ehangder y cwricwlwm, yn sgil ei gyfrifoldeb dros lunio cwricwla lleol, a gall ystyried cyd-destun, capasiti a chynaliadwyedd lleol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau y gall dysgwyr gael mynediad at ddarpariaeth a gwneud dewisiadau gwybodus. Atgyfnerthwyd y canllawiau i adlewyrchu ystyriaethau fel teithio a hygyrchedd, yn ogystal â defnyddio atebion ar-lein i ehangu cynigion. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Medr a phartneriaid er mwyn helpu i'w rhoi ar waith ac i sicrhau bod y model cwricwla lleol sy'n cael ei ddatblygu yn arwain at gynnig eang, cydlynol a hygyrch i ddysgwyr ledled Cymru.

Cwestiwn 5 – Ailsefyll arholiadau TGAU a Sgiliau Hanfodol Cymru

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r polisi arfaethedig yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 ar ddefnyddio cymwysterau TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru fel rhan o raglenni ôl-16?

Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Cytuno'n Gryf	3	10.00%
Cytuno	22	73.33%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	4	13.33%
Anghytuno	1	3.33%
Anghytuno'n Gryf	0	0.00%

O'r ymatebion Likert a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 5, roedd 83% yn gadarnhaol, roedd 13% yn niwtral ac roedd 4% yn negyddol.

Cafwyd cefnogaeth gryf i'r polisi hwn, gydag ymatebwyr yn croesawu'r ffocws ar ddull mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr o ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a'r Gymraeg. Yn benodol, roedd cefnogaeth gref o blaid annog ysgolion i beidio â chofrestru dysgwyr i ailsefyll cymwysterau TGAU heb eu targedu, gydag ymatebwyr yn tynnu sylw at yr effaith negyddol bosibl y gallai ailsefyll arholiadau dro ar ôl tro ei chael ar lesiant, hyder a chymhelliant dysgwyr.

Roedd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cael eu hystyried yn eang fel dewis amgen credadwy a gwerthfawr, gan gynnig dull mwy cymhwysol a hyblyg i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi argaeledd llwybrau TGAU a Sgiliau Hanfodol Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnal hyblygrwydd i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr a nodau cynnydd.

Ochr yn ochr â'r gefnogaeth hon, codwyd pryderon ynghylch cyllid, staffio a'r gallu i ddarparu, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod cymwysterau Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol i raglenni astudio ehangach fel eu bod yn cefnogi priif raglenni astudio dysgwyr, yn hytrach na thynnu sylw oddi arnynt.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd cydnabod mannau cychwyn amrywiol dysgwyr a sicrhau bod llwybrau cynnydd yn realistig ac yn gyflawnadwy. Nododd rhai y gallai gofynion TGAU atal rhai dysgwyr rhag gwneud cynnydd, yn enwedig lle nad ydynt yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r llwybr a ddewiswyd ganddynt. Gofynnwyd am eglurder pellach ynghylch sut y bydd y polisi yn cael ei roi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys y disgwyliadau ar ddarparwyr a'r trefniadau atebolrwydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r lefel gryf o gefnogaeth i'r polisi hwn a'r pwyslais a roddodd ymatebwyr ar ddull hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr o ddatblygu sgiliau hanfodol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cymwysterau TGAU a Sgiliau Hanfodol Cymru wrth helpu dysgwyr i wneud cynnydd ac yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd yn y ffordd y cânt eu cyflwyno i ddiwallu anghenion ac i ystyried mannau cychwyn dysgwyr unigol. Mae'n bwysig bod y cymwysterau hyn yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol fel rhan o raglenni astudio er mwyn iddynt gefnogi nodau dysgu a nodau cynnydd ehangach dysgwyr, yn hytrach na thynnu sylw oddi arnynt.

Cododd ymatebwyr nifer o ystyriaethau ymarferol, gan gynnwys cyllid a chapasiti staffio. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, cafodd geiriad y canllawiau ei gryfhau, gan nodi'n glir y bydd cyllid a staffio yn ffactorau galluogi allweddol wrth gyflwyno cwricwla lleol a bydd angen i Medr ystyried y polisi hwn wrth iddo ddatblygu ei ganllawiau gweithredol. Mae'r materion hyn, ynghyd â chwestiynau ehangach ynghylch modelau gweithredu a darparu, o natur weithredol a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r canllawiau a'r trefniadau manwl a ddatblygir gan Medr a darparwyr.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Medr a phartneriaid er mwyn monitro'r defnydd o wahanol gymwysterau a chyfraddau llwyddo dysgwyr sy'n cyflawni llwyddiant L2 mewn Cymraeg/Saesneg a/neu Fathemateg wrth i'r polisi gael ei roi ar waith.

Cwestiwn 6 – Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch a chymwysterau Sgiliau

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r polisi arfaethedig yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 ar ddefnyddio cymwysterau sgiliau fel rhan o raglenni ôl-16, gan gynnwys Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch a chymwysterau'r Gyfres Sgiliau?

Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Cytuno'n Gryf	5	16.67%
Cytuno	13	43.33%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	8	26.67%
Anghytuno	3	10.00%
Anghytuno'n Gryf	0	0.00%
Heb ateb	1	3.33%

O'r ymatebion Likert a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 6, roedd 60% yn gadarnhaol, roedd 27% yn niwtral ac roedd 10% yn negyddol – Nid atebodd un ymatebydd y cwestiwn hwn.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi bwriad y polisi o ran Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, gyda llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod ei werth wrth gefnogi cynnydd a chyflogadwyedd drwy ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy. Darparwyd adborth cadarnhaol hefyd ar yr hyblygrwydd a'r gallu i deilwra drwy gynnwys cymwysterau'r Gyfres Sgiliau.

Fodd bynnag, cododd nifer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch sut y caiff y cymhwyster ei roi ar waith yn ymarferol. Yn arbennig, roedd pryder cryf, er nad yw'n orfodol yn ffurfiol, y gallai Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch gael ei ystyried yn orfodol i bob pwrpas mewn rhai sefydliadau oherwydd disgwyliadau, trefniadau monitro neu drefniadau ariannu. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at amrywiadau yn y ffordd y caiff y cymhwyster ei gyflwyno ar draws darparwyr a chodwyd pryderon ynghylch llwyth gwaith a phrofiad y dysgwr, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd dysgwyr yn ymddieithrio os nad yw'r cymhwyster yn cyd-fynd yn effeithiol â'u prif raglen astudio.

Roedd barn gyffredinol y dylai cymwysterau sgiliau ategu prif raglenni dysgu dysgwyr, yn hytrach na chystadlu â nhw, ac y dylid cynnal hyblygrwydd er mwyn i ddarparwyr allu dylunio rhaglenni sy'n briodol i wahanol anghenion a chyd-destunau dysgwyr. Codwyd pryderon ynghylch capasiti cyflawni, arbenigedd staff a'r angen am fwy o eglurder ynghylch y statws a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr achosion posibl o orgyffwrdd â gweithgareddau cyfoethogi ehangach fel gwirfoddoli, profiad gwaith neu Wobr Dug Caeredin. Galwodd rhai ymatebwyr am ddull mwy cydlynol o ddatblygu sgiliau ar draws y ddarpariaeth ôl-16.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r adborth a dderbyniwyd a'r gefnogaeth gyffredinol i gynnwys cymwysterau sgiliau yn y canllawiau, gan gynnwys Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Datblygwyd y cymwysterau hyn i roi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n cael eu gwerthfawrogi gan sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr ac i ddangos tystiolaeth o'r sgiliau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch canfyddiadau o'r cymhwyster a sut y gellid ei roi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â llwyth gwaith, trefniadau cyflawni a chysondeb ar draws darparwyr. Er nad oes unrhyw gymhwyster ôl-16 yn orfodol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod hyblygrwydd ar gael o hyd i ddarparwyr wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni, gan ystyried anghenion eu dysgwyr.

Mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn rhan o'r cynnig cwricwlwm ehangach i ddysgwyr 16 i 18 oed a bwriedir iddi ategu prif raglenni astudio dysgwyr, yn hytrach na'u disodli. Er bod gweithgareddau cyfoethogi fel gwirfoddoli neu Wobr Dug Caeredin yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu sgiliau, mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn gymhwyster cydnabyddedig a gynlluniwyd ar y cyd â chyflogwyr i gefnogi cynnydd.

Ysgolion a SABau sy'n gyfrifol am y ffordd y caiff y cymwysterau hyn eu cyflwyno. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Medr a phartneriaid i geisio sicrhau dealltwriaeth gyson o ddiben a statws y cymhwyster.

Cwestiwn 7 – Effaith ar y gweithlu

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn eu cael ar weithlu ysgolion a SABau, gan gynnwys unrhyw effaith y gallai ei chael ar llwythi gwaith.

Cyflwynodd pob ymatebydd adborth ar gyfer y cwestiwn hwn. Er bod rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at fanteision tymor hwy posibl dull mwy cydweithredol o gynllunio'r cwricwlwm, mynegodd llawer bryder ynghylch yr effaith ar gapasiti a llwyth gwaith y gweithlu.

Nododd ymatebwyr yn gyson sawl pwynt pwysau allweddol, gan gynnwys gofynion cynyddol sy'n gysylltiedig â chynllunio ar y cyd, cydweithio ar draws sefydliadau, darpariaeth ar draws gwahanol safleoedd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, darparu cymwysterau newydd, a gofynion rhannu data a monitro. Roedd disgwyl y byddai'r gofynion hyn yn arbennig o arwyddocaol yn ystod y camau gweithredu cynnar.

Roedd barn gref y byddai'r polisi yn arwain at gynnydd yn y llwyth gwaith byr dymor i dymor canolog mewn ysgolion, SABau ac awdurdodau lleol, a chodwyd pryderon ynghylch capasiti o fewn gweithlu sydd eisoes dan bwysau. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am gyfleoedd dysgu proffesiynol ac uwchsgilio ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â gweithio ar y cyd, darpariaeth ddigidol a chymwysterau newydd.

Codwyd heriau mynych mewn perthynas â'r gweithlu o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ADY, gan gynnwys argaeledd staff â chymwysterau addas a'r angen am ddull cenedlaethol mwy strategol o gynllunio'r gweithlu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cymhlethdod gweinyddol, gan gynnwys amserlennu, teithio rhwng safleoedd, a chydlynu ar draws partneriaid.

Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd dull gweithredu graddol, cyllid ychwanegol i gefnogi amser cydweithio, a systemau i fonitro a rheoli pwysau llwyth gwaith. Er bod cydnabyddiaeth y gallai cydweithio arwain at effeithlonrwydd tymor hwy, nododd ymatebwyr y byddai'r manteision hyn yn dibynnu ar ddigon o adnoddau, cydlynu effeithiol a chymorth parhaus i'r gweithlu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl y polisi ar gapasiti a llwyth gwaith y gweithlu mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gweithlu sy'n tynnu sylw at y pryderon a godwyd yn yr ymatebion. Nodwn hefyd nad yw'r canllawiau yn gosod unrhyw ddyletswyddau statudol newydd ar ysgolion, SABau nac awdurdodau lleol. Mae'r dyletswyddau sydd arnynt o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn parhau ar waith.

Rydym yn cydnabod y gallai fod pwysau llwyth gwaith cynyddol yn ystod y camau gweithredu cychwynnol wrth i drefniadau ar gyfer cwricwla lleol newydd gael eu datblygu, gan mai Medr yn hytrach na Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed. Rydym wedi trafod gyda Medr sut y gellir

cyflwyno newidiadau yn raddol yn ystod 2026/27, gan gynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â chynllunwyr cwricwlwm a chael adborth ganddynt wrth i strwythurau cydweithredol a threfniadau gwaith gael eu rhoi ar waith, lle nad ydynt eisoes yn bodoli. Bydd hyn yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu canllawiau gweithredol Medr. Bydd capasiti'r gweithlu yn ffactor pwysig wrth gyflwyno cwricwla lleol mewn ffordd gynaliadwy a bydd yn parhau i gael ei ystyried drwy weithgarwch cynllunio'r gweithlu a gweithgarwch polisi ehangach.

Bwriad y dull cwricwla lleol yw helpu i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon dros amser drwy leihau achosion o ddyblygu diangen a galluogi darparwyr i ganolbwyntio ar feysydd cryfder. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd gwireddu'r manteision hyn yn dibynnu ar gydweithio effeithiol, capasiti'r gweithlu a threfniadau gweithredu clir.

Er i gydweithio rhwng darparwyr fod yn nodwedd o'r system ers cyflwyno'r Mesur Dysgu a Sgiliau, rydym yn cydnabod y bydd disgwyliadau yn datblygu wrth i Medr gymryd cyfrifoldeb am lunio cwricwla lleol, ochr yn ochr â'i ddyletswydd strategol ehangach i hyrwyddo cydweithio a chydlynid. Byddwn yn parhau i weithio gyda Medr a phartneriaid i fonitro effeithiau ar y gweithlu a sicrhau bod y trefniadau gweithredu yn cael eu cyflwyno mewn ffordd hydrin a chymesur.

Cwestiwn 8 – Tegwch ac anghenion amrywiol

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010).

Rhoddodd 93% o'r ymatebwyr adborth i'r cwestiwn hwn. Er bod yr ymatebwyr ar y cyfan yn croesawu'r egwyddorion cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a nodir yn y canllawiau, codwyd nifer o bryderon ynghylch yr effaith bosibl ar fynediad teg a chyfranogiad dysgwyr.

Roedd y pryder a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud â thrafnidiaeth a theithio, gydag ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith y gallai dibyniaeth gynyddol ar ddarpariaeth amlsafle effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr dan anfantais, y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a dysgwyr â chyfrifoldebau gofalu. Codwyd pryderon hefyd y gallai costau teithio, amserlennu a hygyrchedd greu rhwystrau i gyfranogiad a chael effaith negyddol ar bresenoldeb a diogelu.

Pwysleisiodd ymatebwyr, heb gamau lliniaru priodol, y byddai risg bosibl y gallai'r ffactorau hyn ehangu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes rhwng grwpiau o ddysgwyr ac ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Roedd pryderon hefyd y gallai fod yn anoddach i ddysgwyr agored i niwed ddefnyddio modelau cyflawni aml-darparwr heb ddigon o gymorth.

Nodwyd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel maes pryder penodol, gydag ymatebwyr yn nodi bod capasiti yn y sector ôl-16 eisoes dan bwysau. Codwyd pryderon ynghylch argaeledd cymorth arbenigol, eglurder cyfrifoldebau, a'r angen am ddigon o adnoddau i ymateb i'r galw cynyddol. Yn fwy cyffredinol, tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd sicrhau na chaiff newidiadau i'r system effaith andwyol ar gymorth ehangach i ddysgwyr, gan gynnwys darpariaeth iechyd meddwl, darpariaeth ddiogelu a darpariaeth fugeiliol.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i wella'r broses o rannu data cyn-16 er mwyn helpu i leoli dysgwyr yn effeithiol ac ymyrryd yn gynnar, ochr yn ochr â phwysigrwydd cyngor, gwybodaeth ac arweiniad o ansawdd uchel i helpu dysgwyr i ymdrin â threfniadau cwricwlwm lleol mwy cymhleth.

Yn olaf, galwodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder a sicrwydd drwy systemau fel asesiadau effaith a chyflwyno hawliau dysgwyr gofynnol, er mwyn sicrhau cynnig cyson a chyfartal ledled Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r adborth a ddarparwyd a'r gefnogaeth gref i'r egwyddorion cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a nodir yn y canllawiau. Mae sicrhau bod cwricwla lleol yn diwallu anghenion amrywiol pob dysgwr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n mynychu ysgolion a cholegau traddodiadol ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch mynediad teg at ddarpariaeth, yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth, amrywiadau daearyddol a'r cymhlethdod cynyddol sy'n gysylltiedig â modelau cyflawni aml-safle. Gallai'r ffactorau hyn effeithio ar gyfranogiad dysgwyr a rhaid eu hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses o gynllunio cwricwlwm lleol. Atgyfnerthwyd y canllawiau i adlewyrchu pwysigrwydd hygyrchedd a chynhwysiant, ac rydym yn disgwyl i'r ystyriaethau hyn gael eu cynnwys fel rhan o ddulliau cynllunio a goruchwyllo Medr.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysau o fewn y system ADY, gan gynnwys capasiti, darpariaeth arbenigol ac eglurder cyfrifoldebau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau hyn a phwysigrwydd sicrhau bod cwricwla lleol wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n cefnogi dysgwyr ag ystod eang o anghenion.

Mae llawer o'r materion a godwyd - yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â threfniadau trafndiaeth, rhannu data, a chydlynu gwasanaethau cymorth yn lleol - yn faterion gweithredol. Ymdrinnir â'r materion hyn drwy ganllawiau gweithredol manwl a threfniadau gweithredu lleol a gaiff eu datblygu gan Medr ar y cyd â phartneriaid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Medr a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y caiff egwyddorion tegwch a chynhwysiant eu gwireddu o safbwynt ymarferol, ac y caiff pob dysgwr gymorth i gael mynediad at gynigion cwricwlwm lleol ac i gael budd ohonynt, ni waeth beth fo'i gefndir, ei leoliad neu ei anghenion unigol.

Cwestiwn 9 – Y Gymraeg (cydraddoldeb)

Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymatebodd 90% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, ac yn cytuno i raddau helaeth bod y canllawiau yn atgyfnerthu statws y Gymraeg fel dyletswydd gynllunio graidd ac yn cyflwyno cyfleoedd i gydweithio i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebwyr y bydd y graddau y gellir gwireddu'r uchelgeisiau hyn yn ymarferol yn dibynnu ar fynd i'r afael â nifer o heriau sylweddol. Nodwyd bod capasiti'r gweithlu yn fater allweddol, yn enwedig mewn perthynas â phrinder staff cyfrwng Cymraeg a bylchau mewn darpariaeth alwedigaethol a thechnegol. Rhybuddiodd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn erbyn dibynnu'n ormodol ar fodolau cyflwyno ar-lein neu gyfunol, gan nodi efallai na fyddent yn addas i bob dysgwr nac yn apelio at bob dysgwr.

Codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dod yn fwy cyfyngedig neu anghyson, gan gynnwys risgiau y gallai cyfleoedd iaith Gymraeg gael eu crynhoi mewn llai o leoliadau neu feysydd pwnc culach. Gallai hyn arwain at lai o hygyrchedd i rai dysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n codi pryderon ynghylch trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen am ddisgwyliadau cliriach, gan gynnwys y potensial ar gyfer lefelau hawl gofynnol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a chydlynïad cryfach â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Galwyd hefyd am fuddsoddiad cynaliadwy yn y gweithlu cyfrwng Cymraeg, gwell data a threfniadau monitro, a phrosesau cyfathrebu cliriach mewn perthynas â'r llwybrau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg ac yn gallu manteisio arnynt.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r ymateb cyffredinol gadarnhaol i'r pwyslais a roddwyd ar y Gymraeg yn y canllawiau, gan gynnwys cydnabod bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn elfen graidd o'r gwaith o gynllunio cwricwlwm lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er bod y canllawiau yn cynnig fframwaith polisi cryf, y bydd y graddau y gellir gwireddu'r uchelgeisiau hyn yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau cyfrannol. Yn benodol, tynnodd ymatebwyr sylw at gapasiti'r gweithlu, amrywioldeb yn y ddarpariaeth, a hygyrchedd—yn enwedig mewn ardaloedd gwledig—fel risgiau allweddol i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar gyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws ystod eang o lwybrau, gan gynnwys addysg alwedigaethol a thechnegol. Mae'r canllawiau yn atgyfnerthu rôl Medr wrth helpu i

ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi'r uchelgais hon drwy weithgarwch polisi a chynllunio'r gweithlu ehangach, gan gynnwys mentrau i atgyfnerthu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg a chynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Bydd y camau gweithredu hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir ehangu'r ddarpariaeth mewn ffordd gynaliadwy a theg.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd disgwyliadau clir, gwaith monitro effeithiol a sicrhau cysondeb â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Caiff y materion hyn eu hystyried fel rhan o ganllawiau gweithredol a threfniadau gweithredu ehangach Medr, gan sicrhau bod y broses o gynllunio cwricwla lleol yn adlewyrchu uchelgeisiau cenedlaethol a chyd-destun lleol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Medr a phartneriaid er mwyn sicrhau y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei hatgyfnerthu ym mhob rhan o'r system ôl-16, gan helpu mwy o ddysgwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i barhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16 oed.

Cwestiwn 10 – Y Gymraeg (atgyfnerthu)

Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 er mwyn:

- **sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Ymatebodd 80% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dangosodd yr ymatebion gefnogaeth eang i gryfhau'r canllawiau i wella statws y Gymraeg a gwneud mwy o ddefnydd ohoni o fewn cwricwla lleol.

Yn gyffredinol, pwysleisiodd yr ymatebwyr y bydd sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ar y Gymraeg yn dibynnu ar wneud yn siwr bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei thrin fel elfen graidd o'r broses o gynllunio cwricwla yn hytrach nag ystyriaeth atodol. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at bwysigrwydd ymgorffori disgwyliadau clir bod yn rhaid i gwricwla lleol fwrw ati'n benodol i gynnal a datblygu llwybrau cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau nad yw'n ofynnol i ddysgwyr newid i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg er mwyn gallu dilyn y cyrsiau a ddewiswyd ganddynt.

Thema a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd yr angen am fwy o eglurder a chysondeb o ran disgwyliadau. Galwodd ymatebwyr am gyfeiriad cenedlaethol cryfach, gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno hawliau gofynnol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a diffiniadau cliriach o'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth deg ar draws gwahanol gyd-destunau. Yn benodol, codwyd pryderon ynghylch bylchau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg galwedigaethol a thechnegol a'r angen i sicrhau cydraddoldeb â llwybrau academaidd.

Nodwyd hefyd fod capasiti'r gweithlu yn ffactor allweddol wrth alluogi canlyniadau cadarnhaol.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at yr angen am fuddsoddiad parhaus mewn prosesau recriwtio, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn ehangu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn meysydd pwnc arbenigol a galwedigaethol. Yn gysylltiedig â hyn, nododd ymatebwyr y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno darpariaeth ddwyieithog a datblygu adnoddau priodol.

Ystyriwyd yn eang fod cydweithio yn ffordd bwysig o gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd â niferoedd llai o ddysgwyr. Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebwyr y dylid defnyddio modelau cyflawni cydweithredol a digidol i ehangu mynediad yn hytrach na disodli darpariaeth leol, ac y dylid cydbwysu'r ddibyniaeth ar y dulliau hyn yn ofalus er mwyn sicrhau ansawdd a hygyrchedd i ddysgwyr.

Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at bwysigrwydd systemau cynllunio, monitro ac atebolrwydd cryfach. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cyflwyno asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses o gynllunio cwricwla lleol, gwell trefniadau ar gyfer casglu data ar gyfranogiad a chanlyniadau, a chysondeb cliriach â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Yn olaf, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cyngor, gwybodaeth ac arweiniad o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Galwyd hefyd am i sgiliau Cymraeg gael eu cydnabod yn fwy penodol fel ased cyflogadwyedd ac i gryfhau'r cysylltiadau rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd yn y farchnad lafur.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r adborth adeiladol a ddarparwyd ar sut y gellid atgyfnerthu'r canllawiau i gefnogi'r iaith Gymraeg ymhellach.

Mae cefnogaeth glir i sicrhau y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei chynnwys fel elfen graidd wrth gynllunio cwricwla lleol, yn hytrach na'i thrin fel ystyriaeth atodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor hon ac wedi adlewyrchu hyn drwy atgyfnerthu adrannau perthnasol yn y canllawiau.

Rydym yn cydnabod y ceisiadau am fwy o eglurder a chysondeb o ran disgwyliadau, gan gynnwys y potensial ar gyfer lefelau hawl gofynnol a diffiniadau cliriach o ddarpariaeth deg. Mae'r canllawiau yn nodi'r disgwyliad strategol y dylid cynllunio ac ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog lle y bo'n bosibl; caiff y trefniadau manwl ar gyfer gweithredu'r disgwyliadau hyn, gan gynnwys sut y caiff y ddarpariaeth ei threfnu ar lefel leol, eu datblygu drwy ganllawiau gweithredol Medr.

Mae capasiti'r gweithlu yn parhau i fod yn ffactor hollbwysig wrth gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am fuddsoddiad parhaus mewn prosesau recriwtio, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn helpu i ehangu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn meysydd pwnc galwedigaethol ac arbenigol. Caiff hyn ei ddatblygu drwy weithgarwch cynllunio'r gweithlu ehangach.

Bydd cydweithio rhwng darparwyr yn allweddol er mwyn atgyfnerthu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae niferoedd dysgwyr yn is. Mae'r canllawiau yn cefnogi dulliau cydweithredol o gyflawni, gan gynnwys defnyddio modelau digidol a chyfunol lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylid defnyddio'r dulliau hyn i wella mynediad a dewis i ddysgwyr lle y bo'n bosibl, yn hytrach nag fel dewis amgen yn lle datblygu darpariaeth leol.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd systemau cynllunio, monitro ac atebolrwydd effeithiol. Bydd gan Medr rôl ganolog wrth sicrhau y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei hystyried wrth ddatblygu cwricwla lleol, wedi'i hategu gan ddata priodol a gwaith ymgysylltu â phartneriaid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Medr a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn cefnogi'r uchelgais hirdymor i gynyddu cyfranogiad cyfrwng Cymraeg ac atgyfnerthu rôl y Gymraeg ar draws pob llwybr ôl-16.

Cwestiwn 11 – Sylwadau cyffredinol

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, gallwch eu nodi yma

Manteisiodd 57% o'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar y cyfle i roi sylwadau ychwanegol, gan dynnu sylw at nifer o themâu trawsbynciol ar draws yr ymgynghoriad.

Roedd y rhain yn cynnwys pryderon yn ymwneud â'r gostyngiad o ran niferoedd dysgwyr, cynaliadwyedd ariannol ar draws sefydliadau addysg bellach ac adrannau chweched dosbarth mewn ysgolion, anghydraddoldeb o ran trafnidiaeth, amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu, a baich cronrus diwygiadau parhaus ar gapasiti'r system. Pwysleisiodd ymatebwyr y bydd y pwysau systemig ehangach hyn yn cael effaith sylweddol ar y gallu i roi'r canllawiau ar waith.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd yr angen am fwy o eglurder mewn perthynas â rolau, cyfrifoldebau a phrosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig o ran swyddogaeth Medr fel rhan o'r system. Galwodd ymatebwyr am drefniadau atebolrwydd cliriach, mwy o dryloywder wrth wneud penderfyniadau, a chanllawiau mwy penodol ar sut y bydd trefniadau cydweithio yn gweithredu o safbwynt ymarferol.

Roedd galw hefyd am well seilwaith o fewn y system, gan gynnwys modelau ariannu cynaliadwy i gefnogi trefniadau cydweithio, buddsoddi i wella capasiti'r gweithlu, a mynediad at ddata sylfaenol cadarn i lywio'r broses o gynllunio cwricwla. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd systemau monitro ac adolygu rheolaidd, ochr yn ochr â disgwyliadau cliriach i sicrhau cysondeb a thegwch ledled Cymru.

Yn fwy cyffredinol, tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd sicrhau y caiff y canllawiau eu rhoi ar waith mewn ffordd realistig a graddol, gan roi ystyriaeth ddigonol i'r pwysau ar y system bresennol, amrywiadau rhanbarthol a'r angen i gynnal cynnig ôl-16 cynaliadwy o ansawdd uchel.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ymdriniwyd â'r ymatebion i'r themâu trawsbynciol a godwyd drwy'r cwestiwn hwn yn y dadansoddiadau unigol o'r cwestiynau blaenorol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, mae'n bosibl na chafodd rhai o'r materion a godwyd fel rhan o ymatebion unigol eu hadlewyrchu'n llawn, ond cafodd pob ymateb ei ystyried yn ofalus, a rhoddwyd ystyriaeth briodol i bob argymhelliad.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau y bydd Medr a chynllunwyr cwricwlwm yn eu hwynebu wrth iddynt ddechrau cyflwyno cynigion cwricwla lleol o dan y canllawiau hyn a bydd yn helpu Medr i ddatblygu ei ganllawiau gweithredol, er mwyn lliniaru'r heriau hynny.

Caiff y crynodeb hwn o ymatebion ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau terfynol ac unrhyw asesiadau effaith cysylltiedig.